

# Busnes Cymdeithasol Cymru

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy](https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy)



Wales Co-operative Centre  
Canolfan Cydweithredol Cymru

Lleol, tecach, cryfach:  
busnesau cymdeithasol yn creu twf yng Nghymru  
08 | Astudiaeth achos:  
Eglwys Gymunedol Tywi



Busnes | Business  
Cymru | Wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund

# wavehill

social and economic research  
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron: Eva Trier, Endaf Griffiths a  
Ioan Teifi, Wavehill Ltd

Comisiynwyd a chyhoeddwyd gan Busnes  
Cymdeithasol Cymru.

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan  
Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a  
Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan  
Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o  
wasanaeth Busnes Cymru.

Canolfan Cydweithredol Cymru  
Y Borth  
13 Ffordd Beddau  
Caerffili  
CF83 2AX

0300 111 5050  
info@wales.coop  
www.wales.coop

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch hefyd i'r holl unigolion a  
roddodd o'u hamser i helpu gyda'r ymchwil a  
gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Meirion Thomas o  
Penbryn Consulting a Keith Edwards o Keith  
Edwards Ltd. a gynigiodd eu myfyrdodau ar dwf  
busnesau cymdeithasol, gan ddefnyddio  
busnesau'r astudiaethau achos fel enghreifftiau.

Ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl  
heb yr holl gyfraniadau hyn.

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru  
Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol  
Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf  
Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd  
Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.  
Ni fydd oedi os byddwch yn gohebu â ni yn Gymraeg.

## 08 | ASTUDIAETH ACHOS Eglwys Gymunedol Tywi

### Lleoliad y busnes

Tre Ioan, Caerfyrddin  
SA31 3BP

### Prif weithgarwch y busnes

Ale bowlïo deg, siop aildefnyddio  
dodrefn, banc bwyd, siop elusen.

### Maint y busnes

45 o staff; 125 o wirfoddolwyr.  
Trosiant o £920,000 yn 2016.

Menter gymdeithasol a sefydlwyd fel cwmni cyfyngedig drwy warant ac elusen yw Eglwys Gymunedol Tywi (TCC).

Mae TCC yn darparu pob math o weithgareddau trwy Brosiect Xcel, gan gynnwys ale bowlïo deg (Bowlïo Xcel) a chaffi (Caffi Xcel), fel y prif weithgareddau masnachol sy'n targedu marchnad prif ffrwd, a llawer o weithgareddau sy'n diwallu anghenion penodol yn y gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys menter fanwerthu aildefnyddio dodrefn (Dodrefn Xcel), siop elusen (Siop Cymuned Xcel) a banc bwyd Caerfyrddin, partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Trussell.



## 08 | ASTUDIAETH ACHOS

# Eglwys Gymunedol Tywi

Yn ogystal, mae Eglwys Gymunedol Tywi'n cynnig amryw o ystafelloedd i'w llogi ac yn cynnal ardal chwarae i blant.

Dechreuodd yr ale bowlïo deg yn 2013, gyda'r siop aildefnyddio dodrefn yn agor flwyddyn yn ddiweddarach.

Cafodd y cwmni ei sefydlu gan Eglwys Gymunedol Tywi i ddarparu amryw o brosiectau cymunedol, gan gydnabod dymuniad yr eglwys i gyfrannu at waith adfywio cymunedol yn yr ardal. Roedd ymgynghoriad cyhoeddus wedi amlygu'r angen am gyfleuster hamdden, a gwelwyd bod ale bowlïo deg yn ddewis poblogaidd gyda'r gymuned leol.

Gan adeiladu ar gysylltiadau presennol â'r adran adfywio yn yr Awdurdod Lleol, y gwaith o drosglwyddo asedau o ffatri wag gyda warws oedd y man cychwyn ar gyfer y gweithgareddau mentrau cymdeithasol sydd bellach yn cael eu darparu. Roedd hyn yn gyfle i

uno dyheadau'r eglwys i ymestyn gwasanaethau i ailgylchu dodrefn ac i feysydd eraill, gan ddefnyddio'r refeniw a gynhyrchir gan yr ale bowlïo deg i gymorthdalau'r gwasanaethau hyn.

### Proffil y bobl

Mae TCC yn cyflogi 45 aelod o staff, gyda 30 ohonynt yn weithwyr cyfwerth ag amser llawn, a rhagwelir y bydd 14 o swyddi newydd yn cael eu creu dros y ddwy flynedd nesaf.

Yn ogystal, mae 125 o wirfoddolwyr yn cyfrannu'n rheolaidd at weithgareddau TCC.

Ar wahân i un cynrychiolydd o Eglwys Gymunedol Tywi, mae Bwrdd Rheoli Xcel Bowl yn cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid allanol a sefydliadau cymunedol a phartner, o benaethiaid ysgolion a gwasanaethau ieuenctid i gynghorwyr cymuned ac arbenigwyr technegol megis cyfrifydd lleol. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn chwarterol.

### Proffil ariannol

Ni fyddai gweithgareddau busnes cymdeithasol Eglwys Gymunedol Tywi wedi bod yn bosibl heb i asedau hen ffatri gaws gael eu trosglwyddo gan Gyngor Sir Gâr. Diolch i gyllid grant a oedd yn cynnwys grant o dan raglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol y Gronfa Loteri Fawr, sy'n cwmpasu cyllid cyfalaf a chyllid refeniw, ynghyd â dau fenthyciad a chymorth ariannol gan yr Awdurdod Lleol, roedd cyfalaf cychwynol y prosiect tua £2.5 miliwn.

Yn ogystal, cododd yr eglwys tua £150,000 ar gyfer arolygon a chostau cyfreithiol nad oedd yn gyllid grant. Roedd refeniw masnachu a benthyciadau 'meddal' a wnaed gan aelodau'r Eglwys Gymunedol eu hunain yn cyfrannu at y prosiect hefyd (e.e. £30,000 ar gyfer yr ardal chwarae meddal a chyfraniad sylweddol at ddatblygiad yr awdutorium newydd). Masnachu gyda'r cyhoedd yw'r brif ffynhonnell incwm erbyn hyn.

Cafodd y cwmni ei sefydlu gan Eglwys Gymunedol Tywi i ddarparu amryw o brosiectau cymunedol, gan gydnabod dymuniad yr eglwys i gyfrannu at waith adfywio cymunedol yn yr ardal.

Yn unol â'i chynllun 5 mlynedd, yn dilyn colled fach ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf, rhagwelir y bydd y fenter yn gwneud elw bach yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Er gwaethaf y golled fach, mae TCC wedi ailfuddsoddi yn y busnes, gan wario £10,000 ar uwchraddio'r gegin. Roedd hyn yn angenrheidiol o ystyried bod 60% o drosiant y sefydliad yn deillio o arlwy.

Hyd yma, mae hyfywedd ariannol TCC yn dibynnu ar y seibiannau sydd ar gael trwy'r statws elusennol, ond y gobaith yw y bydd gwargedau'n cynyddu ac yn cryfhau hyfywedd masnachol cyffredinol y busnes ymhellach. Y ffaith bod yr holl wargedau'n cael eu hail-fuddsoddi yn y busnes yn hytrach na'u cymryd allan fel difidendau yw'r hyn sy'n gosod y fenter hon ar wahân i fusnesau cymaradwy. Mae'r prosiect wedi tyfu o drosiant o £663,000 yn 2014 i £920,000 yn 2016.

Mae rôl gwirfoddolwyr yn cynnal y gweithgareddau yn hollbwysig i hyfywedd cyffredinol y fenter. Maent yn cyfrannu at y profiad o safon sy'n gwneud yr ale bowlïo deg yn wahanol i leoliadau tebyg eraill, ac adlewyrchir hynny yn y sgoriau ar wefan TripAdvisor. Mae hyn yn rhan annatod o'r model busnes a, thrwy gydnybuddiaeth eglur o gyfraniad gwirfoddolwyr a thrwy ddefnyddio cynlluniau bancio amser, mae TCC yn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael elw priodol ar yr amser, yr ymdrech a'r sgiliau a fuddsoddir ganddynt.

Mae TCC wedi ymrwmo i ailfuddsoddi unrhyw elw a wneir mewn mentrau cymdeithasol; ni all unrhyw elw fynd tuag at yr eglwys. Felly, y weledigaeth tymor hir dros y pum i ddeng mlynedd nesaf yw creu cronfa wrth gefn a fydd yn galluogi TCC i roi cefnogaeth fwy cynhwysfawr i grwpiau a syniadau mentrus eraill.

## Trywydd y twf ac effaith ar y gymuned

Mae gan TCC amcanion cymdeithasol, felly'r prif ysgogiad dros dwf yw gallu gwneud mwy. Fodd bynnag, yr hyn sy'n allweddol wrth gyflawni'r uchelgais hon yw bod y gweithgareddau yn cynnal eu hunain o leiaf.

Mae'r ale bowlïo deg wedi dod yn boblogaidd iawn ymhlith ymwelwyr. Yn wir, mae'r ale'n llawn am y rhan fwyaf o'r penwythnos ac yn dod yn fwyfwy prysur yn ystod yr wythnos, ac mae niferoedd yr ymwelwyr ar gyfartaledd (rhwng 13,000 a 15,000 y mis) ddwywaith yr hyn a ragwelwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol.

Felly hefyd y caffi, sy'n brysurach nag a ragwelwyd, gan ddenu cwsmeriaid o radiws o 10-15 milltir, gan gynnwys llawer o grwpiau cymunedol sy'n cyfarfod yno'n rheolaidd, ynghyd â defnyddwyr yr ale bowlïo deg. Mae'r cyfleuster chwarae meddal i blant yn cynhyrchu refeniw sylweddol hefyd, heb orbenion cost gormodol.



## 08 | ASTUDIAETH ACHOS

# Eglwys Gymunedol Tywi

Mae'r ale bowllo deg yn hollbwysig o ran darparu'r cyllid i wneud i'r holl safle weithio; ni fyddai'r siop ddodrefn yn hyfyw ar ei phen ei hun. Yn ogystal, fodd bynnag, mae'n lleoliad cymunedol â phrisiau rhesymol sy'n galluogi pobl i gyfarfod heb deimlo na allant fforddio unrhyw beth. Mae'r rhan o'r dref lle mae'r ale bowllo deg wedi'i lleoli wedi elwa ar gynnydd yn nifer yr ymwelwyr ac wedi datblygu'n sylweddol ers i'r safle agor. Mae'r hen adeiladau diwydiannol ar safle Xcel wedi'u hailwampio. Mae hyn hefyd wedi annog busnesau eraill i ailwampio eu hadeiladau ac wedi gwneud yr ardal yn fwy deniadol o lawer i gymuned leol Tre Ioan. Mae hen adeiladau wedi'u dymchwel, ffensys wedi'u trwsio ac ati. Mae'r gwaith yn parhau ond mae'r gwelliant yn amlwg, a bydd datblygu

awditoriwm fel rhan o gam 2 Xcel yn cyflwyno gwelliannau pellach. Bydd y gwaith hwn, pan gaiff ei gwblhau, yn helpu i ategu'r gwaith o adfywio'r rhan hon o Gaerfyrddin.

Rydym wedi gweld twf diweddar yn y siop ddodrefn, sydd wedi tyfu o un rheolwr yn unig yn gweithio gyda gwirfoddolwyr i gyflogi chwe pherson er mwyn gallu darparu gwasanaeth proffesiynol. Mae'r siop ddodrefn wedi caffael warws ychwanegol hefyd i storio'r dodrefn. Disgwylir i'r siop dyfu ymhellach yn sgil agor dwy siop arall, gyda'r lleoliad presennol yn cael ei ddefnyddio fel warws yn unig.

Mae'r siop elusen wedi cynyddu ei gweithgareddau hefyd, ac mae'r gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu gan 25 o wirfoddolwyr.

Nid oes ganddo unrhyw staff, ond mae ar agor 6 diwrnod yr wythnos. Cafodd y syniad ar gyfer y siop elusen ei gyflwyno gan wirfoddolwr. Mae'n enghraifft o TCC yn darparu cyfrwng i aelodau'r gymuned roi eu syniadau ar gyfer gweithgareddau mentrau cymdeithasol ar waith.

Mae'r Banc Bwyd yn cael defnydd da, a hwn oedd y Banc Bwyd a dyfodd gyflymaf yng Nghymru yn ystod 2016. Ers agor, mae wedi helpu 7,638 o gleientiaid trwy ddsbarthu 74,649 cilogram o fwyd, ac mae 92 o asiantaethau wedi cofrestru i gyhoeddi talebau. Mae gweithgareddau ychwanegol megis cyrsiau rheoli dyled, sgiliau TGCh a rheoli arian yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr dan oruchwyliaeth un aelod staff allweddol.

Mae'r llwyddiant cychwynnol o ran creu busnes hyfyw gyda'r ale bowllo deg a'r siop ddodrefn yn darparu ysgogiad i syniadau a mentrau pellach.

Mae model busnes cymhleth, gyda llawer o gydrannau symudol, yn allweddol i gyflawni a rheoli twf. Mae'r fenter ddodrefn yn canolbwyntio'n gadarn ar reoli lefelau stoc ac ansawdd a defnyddio amrywiadau pris a gwahanol gyfryngau gwerthu, gan gynnwys gwerthu ar-lein ar Facebook, i sicrhau bod y costau a'r refeniw yn gwneud synnwyr ariannol.

Mae cyfleoedd twf ychwanegol mewn perthynas â manteision y fenter aildddefnyddio dodrefn o ran osgoi safleoedd tirlenwi yn cael eu harchwilio. Fodd bynnag, oherwydd y gwahanol drefniadau cytundebol ar gyfer contractau gwastraff ac ailgylchu awdurdodau lleol, nid yw hwn yn gyfle syml.

Yn ogystal â mynd ati i nodi cyfleoedd i ddatblygu'r busnes, mae gan TCC feddwl agored ynghylch defnyddio ei sgiliau a'i hasedau i ddatblygu gwasanaethau newydd i'r gymuned. Mae meysydd sy'n cael eu

harchwilio'n cynnwys gwasanaethau cwnsela, ond mae hyn yn cael ei ystyried gyda synnwyr o realaeth o ran y gofynion o weithio ochr yn ochr â sefydliad mor gymhleth â'r GIG.

Mae'r llwyddiant cychwynnol o ran creu busnes hyfyw gyda'r ale bowllo deg a'r siop ddodrefn yn darparu ysgogiad i syniadau a mentrau pellach. Mae TCC bellach wedi symud ymlaen i ail gam datblygiad y safle, ac mae'n buddsoddi mewn awditoriwm 100 sedd.

### Safle cystadleuol

Mae TCC ond yn gweithio yn Sir Gâr, er bod yr ale bowllo deg yn denu pobl o'r tu hwnt i ffiniau'r sir.

Mae'r fenter aildddefnyddio dodrefn wedi'i chyfyngu i Sir Gâr gan fod costau ar gyfer y gwasanaeth aildddefnyddio dodrefn yn cynyddu'n sylweddol os gwasanaethir ardal fwy o faint.

Mae'r ffocws ar gyfer y gweithgarwch manwerthu dodrefn ar ardal lai cefnog o Sir Gâr, gan sicrhau bod dodrefn fforddiadwy ar gael yno. Yr unig gystadleuaeth yw dodrefn newydd, cost isel, ond mae'r dodrefn hynny hyd yn oed ar gael am bris sydd y tu hwnt i lawer o'r aelwydydd sy'n defnyddio gwasanaethau TCC. Byddai hyn ond yn peri problem pe bai TCC yn agor menter fanwerthu yng nghanol y dref.

Rheswm arall dros y ffocws ar Sir Gâr yw'r ffaith nad yw TCC am gystadlu gyda gwasanaethau sy'n bodoli eisoes mewn ardaloedd eraill. Mae mentrau tebyg sy'n cynnig gwasanaeth da ar gael yn Sir Benfro ac Abertawe.



## 08 | ASTUDIAETH ACHOS Eglwys Gymunedol Tywi

### Ymwneud â'r economi lleol

Mae gan TCC bolisi prynu lleol ac mae'n meithrin cysylltiadau â chyflenwyr lleol, gan drafod telerau sydd o fudd i'r naill bartner a'r llall. Yn ogystal, mae'r siop ddodrefn a'r banc bwyd yn gweithredu cynllun talebau gyda 92 o sefydliadau sy'n asesu a yw pobl yn gymwys i gael darpariaeth am ddim ac yn atgyfeirio pobl i'r siop ddodrefn a'r banc bwyd. Maent yn cynnwys adrannau awdurdodau lleol, meddygon, ysgolion ac elusennau.

Mae TCC yn gweithio mewn partneriaeth â Mencap Cymru hefyd, gan ddarparu lleoliadau i'w

cleientiaid, gyda rhai ohonynt wedi mynd ymlaen i gael cyflogaeth.

Mae TCC eisoes yn darparu cymorth lefel isel i grwpiau cymunedol eraill. Mae grŵp ieuenctid lleol, er enghraifft, yn derbyn rhodd reolaidd i gefnogi'r aelod o staff a gyflogir, ac mae digwyddiadau elusennol yn cael eu cynnal am ddim.

Mae TCC wedi dod yn bartner adfywio pwysig i'r Awdurdod Lleol hefyd. Mae pob perthynas yn seiliedig ar ymddiriedaeth a dealltwriaeth o anghenion sefydliadau dros amser.

Mae gan TCC bolisi prynu lleol ac mae'n meithrin cysylltiadau â chyflenwyr lleol, gan drafod telerau sydd o fudd i'r naill bartner a'r llall.